**Is-adran Physgodfeydd**
**Fisheries Division**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

9 Chwefror 2024

Annwyl Randdeiliaid,

**Pysgodfa cregyn moch – Nodyn atgoffa i wneud cais am drwydded cregyn moch newydd 2024 – 2025**

Mae cyfnod presennol y trwydded cregyn moch, 1 Mawrth 2023 i 28 Chwefror 2024 yn dod i ben. Er mwyn parhau i bysgota am gregyn moch gyda photiau ym mharth Cymru, bydd angen i berchnogion cychod pysgota trwyddedig, os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny, wneud cais a thalu am drwydded cregyn moch newydd ar gyfer y cyfnod trwyddedu nesaf 1 Mawrth 2024 i 28 Chwefror 2025.

Rydyn ni wedi diweddaru tudalen y bysgodfa cregyn moch ar ein gwefan (https://www.llyw.cymru/gwneud-cais-am-drwydded-i-bysgota-am-gregyn-y-moch-gyda-chewyll-2024-i-2025-0) sy'n cynnig dolenni i wybodaeth ddefnyddiol gan gynnwys sut i wneud cais am drwydded a gwybodaeth ynghylch sut ydym yn rheoli'r bysgodfa cregyn moch.

Mae Llywodraeth Cymru am ddiogelu'r stociau cregyn moch ym mharth Cymru a sicrhau pysgodfa gynaliadwy trwy eu rheoli mewn ffordd all addasu yn ôl newidiadau yn yr amgylchedd a lefelau'r stoc. Mae system reoli pysgodfeydd yn cynnwys:

- Trwyddedau – bydd angen trwydded ar unrhyw un sy'n pysgota am gregyn moch gan ddefnyddio potiau ym mharth Cymru ar gyfer pob cwch ac ar gyfer pob cyfnod trwydded. **Bydd ffi am £304 y drwydded hon.**

- Cyfnod Caniatáu – bydd y tymor pysgota blynyddol a ganiateir yn weithredol o 00:01 ar 1 Mawrth bob blwyddyn hyd 23:59 ar ddiwrnod olaf mis Chwefror y flwyddyn ganlynol.

- Terfyn Dalfa Blynyddol (ACL) – defnyddir data monitro a dal gwyddonol i bennu Terfyn Dalfa Blynyddol (ACL) ar gyfer y fflyd gyfan a ganiateir. Bydd hyn yn cael ei osod ar **4,768 tunnell** ar gyfer y cyfnod caniatáu sy'n dechrau ar 1 Mawrth 20 ac wedi hynny bydd yn cael ei amrywio yn seiliedig ar dystiolaeth.

- Terfyn Dalfa Misol Hyblyg (MCL) – Bydd pob deiliad trwydded yn cael yr un MCL mewn unrhyw fis penodol. I ddechrau ar gyfer y cyfnod caniatáu sy'n

dechrau ar 1 Mawrth 2023, bydd hyn yn cael ei osod ar **50 tunnell ym mis Mawrth** ac, os oes angen, bydd yn cael ei amrywio yn y misoedd dilynol i sicrhau na ragorir ar yr ACL a bod budd y bysgodfa wedi'i wasgaru ar draws cyfnod y drwydded yn unol â phatrymau pysgota hanesyddol.

- Ffurflenni Dalfa Misol – Bydd yn ofynnol i bob deiliad trwydded gyflwyno ffurflen dalfa gywir ar gyfer pob cwch a ganiateir ar ddiwedd pob mis fel amod trwydded hyd yn oed os nad ydynt wedi pysgota.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag adran y Môr a Physgodfeydd ar milfordhavenfisheriesoffice@gov.cymru neu ffoniwch 0300 025 3500.

Yn gywir


Bethan Jones

**Head of Fisheries Trade**

**Welsh Government**